**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS
Prif Weinidog Cymru

25 Mawrth 2025

Annwyl Eluned,

**Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

Fe gofiwch imi ysgrifennu atoch ar 11 Chwefror 2025 mewn perthynas â'r Bil uchod.

Yn fy llythyr, a oedd yn dilyn cwblhau'r broses cymryd tystiolaeth gan bwyllgorau yng Nghyfnod 1, fe'ch hysbysais o'm penderfyniad nad oedd angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil.

Tynnais sylw hefyd at y ffaith y byddai gofynion Rheol Sefydlog 26.72 yn gymwys pe bai'r Bil yn symud ymlaen i'r cyfnodau diwygio. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Rheol Sefydlog 26.72 yn darparu, os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwnnw na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Senedd wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath.

Sylwaf fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 bellach wedi mynd heibio. Rwyf wedi penderfynu bod gwelliant 34, a gyflwynwyd gan Adam Price AS ar 21 Mawrth 2025, yn berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 26.72. Yn ôl ei destun esboniadol, mae'r gwelliant yn sefydlu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru fel swydd yn ei rhinwedd ei hun, ond yn darparu bod y swydd i'w dal gan Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.

Yn fy marn i, mae ansicrwydd ynghylch a fyddai gwelliant 34, o'i dderbyn, yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil na fyddai ei angen fel arall. Am y rheswm hwn, ac i sicrhau bod y Senedd wedi awdurdodi'n benodol unrhyw wariant sylweddol a allai godi o dderbyn y gwelliant hwn i'r Bil, rwyf o'r farn bod yn rhaid i'r Senedd yn gyntaf gytuno ar

gynnig am benderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwn er mwyn cynnal trafodion ar y gwelliant hwn yng Nghyfnod 2.

Sylwaf fod trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i'w cynnal ar 31 Mawrth 2025. Felly, er mwyn i welliant 34 gael ei ystyried yn ystod y trafodion hyn, bydd yn rhaid i gynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol gael ei gyflwyno ar gyfer ystyried yn y Cyfarfod Llawn heddiw, 25 Mawrth 2025, neu yfory, 26 Mawrth 2025. Byddwch hefyd yn ymwybodol y bydd angen cynnig i atal y Rheolau Sefydlog i alluogi cynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol gael ei ystyried ar y dyddiadau hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Adam Price AS, at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

Yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English